**LC461**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11) 2002**

Mae'r gorchymyn hwn wedi'i wneud ar y cyd gan y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. Mae'n dwyn i rym, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, adran 102, a darpariaethau penodol adran 104, o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Tabl o Gychwyniadau Blaenorol**

Mae'r tabl yn rhoi manylion y darpariaethau sydd wedi'u dwyn i rym yn Lloegr, a thrwy oblygiad, y rhai sydd wedi'u dwyn i rym yng Nghymru a Lloegr gan OS 2000/2544. Serch hynny, nid yw'r tabl yn cynnwys y gorchmynion cychwyn blaenorol sydd wedi'u gwneud gan y Cynulliad yn unig.

Pe bai gorchymynion y Cynulliad yn cael eu cynnwys yn y prif dabl, dylai'r geiriau sydd ar hyn o bryd ar ddiwedd y tabl gael eu symud i ddod o flaen y tabl fel paragraff (c). Er hynny, os defnyddiwyd tabl ar wahân ar gyfer Cymru, byddai angen cynnwys y cychwyniadau a gyflawnwyd gan OS 2000/2544 hefyd.

Dylid ystyried cywiro hyn yn y fersiwn gyhoeddedig.

**Y Dyddiad Gwneud**

Dylai hwn fod wedi'i fewnosod ar y copi o'r gorchymyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

517

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Ebrill 2002